O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2020 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Traffig Unffordd) 2020

Gwnaed	*24 Tachwedd 2020*
Yn dod i rym	*26 Tachwedd 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffyrdd yr A487 a'r A40, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, ar ôl rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Traffig Unffordd) 2020 a daw i rym ar 26 Tachwedd 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cefnffordd yr A487" ("*the A487 trunk road*") yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor;

ystyr "cefnffordd yr A40" ("*the A40 trunk road*") yw cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun; ac,

ystyr "ffordd gyswllt yr A487" ("*the A487 link road*") yw ffordd gyswllt yr A487 (Heol Fawr A40 i'r Wesh A487), Abergwaun.

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H S T A T U T O R Y
I N S T R U M E N T S

2020 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A487 and A40 Trunk Roads (Fishguard, Pembrokeshire) (One Way Traffic) Order 2020

Made	*24 November 2020*
Coming into force	*26 November 2020*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 and A40 trunk roads, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and 2(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984**(1)**, after giving public notice of their intention to do so and after consultation with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police, make this Order.

Title, Commencement and Interpretation

1. The title of this Order is the A487 and A40 Trunk Roads (Fishguard, Pembrokeshire) (One Way Traffic) Order 2020 and it comes into force on 26 November 2020.

2. In this Order:

"the A487 link road" *("ffordd gyswllt yr A487")* means the A487 (High Street A40 to West Street A487) Link Road, Fishguard;

"the A487 trunk road" *("cefnffordd yr A487")* means the A487 Fishguard to Bangor trunk road; and,

"the A40 trunk road" *("cefnffordd yr A40")* means the A40 London to Fishguard trunk road.

(1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c. 25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r de-ddwyrain ar y darn o gefnffordd yr A487 a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r de-orllewin ar y darn o gefnffordd yr A40 a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Thrafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Tachwedd 2020

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Prohibition

3. No person may cause or permit any vehicle to proceed in any direction other than south-eastwards on the length of the A487 trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may cause or permit any vehicle to proceed in any direction other than south-westwards on the length of the A40 trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 24 November 2020

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o ganol ei chyffordd â Ffordd Gyswllt yr A487 hyd at ganol ei chyffordd â'r darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm.

ATODLEN 2

Y darn o gefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o ganol ei chyffordd â'r A487 y Wesh a'r A487 Ffordd y Cwm hyd at ganol ei chyffordd â Ffordd Gyswllt yr A487.

SCHEDULE 1

The length of the A487 trunk road known as West Street that extends from the centre of its junction with the A487 link road to the centre of its junction with the length of the A487 trunk road known as Main Street.

SCHEDULE 2

The length of the A40 trunk road known as High Street that extends from the centre of its junction with the A487 trunk road known as West Street and the A487 trunk road known as Main Street to the centre of its junction with the A487 link road.

GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A487 A'R A40 (ABERGWAUN, SIR BENFRO) (TRAFFIG UNFFORDD) 2020

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 26 Tachwedd 2020.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd pob cerbyd rhag mynd i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r de-ddwyrain ar y darn o gefnffordd yr A487 a thua'r de-orllewin ar

THE A487 AND A40 TRUNK ROADS (FISHGUARD, PEMBROKESHIRE) (ONE WAY TRAFFIC) ORDER 2020

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1), 2(2) and 4(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on the 26 November 2020.

The effect of the Order will be to prohibit all vehicles from proceeding in any direction other than south-eastwards on the length of the A487 trunk road and

y darn o gefnffordd yr A40 yn Abergwaun yn Sir Benfro a bennir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 25 Tachwedd 2020 ymlaen, gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn sydd wedi'i wneud a'r plan ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1370703.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu

b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 24 Tachwedd 2020, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

south-westwards on the length of the A40 trunk road at Fishguard in the County of Pembrokeshire, specified in the Schedules to this Notice.

During a period of 6 weeks from 25 November 2020, a copy of this Notice, the made Order and plan can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1370703.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

a. that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or

b. that any of the relevant requirements has not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 24 November 2020, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1

Y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o ganol ei chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at ganol ei chyffordd â'r darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm.

ATODLEN 2

Y darn o gefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o ganol ei chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh a chefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm hyd at ganol ei chyffordd â ffordd gyswllt yr A487.

SCHEDULE 1

The length of the A487 trunk road known as West Street that extends from the centre of its junction with the A487 link Road to the centre of its junction with the length of the A487 trunk road known as Main Street.

SCHEDULE 2

The length of the A40 trunk road known as High Street that extends from the centre of its junction with the A487 trunk road known as West Street and the A487 trunk road known as Main Street to the centre of its junction with the A487 link road.